Refferendwm
Refferendwm
Refferendwm
Refferendwm
Refferendwm

Y Comisiwn Etholiadol

Cynhaliwch refferendwm yn eich ysgol

Adnodd i'w ddefnyddio yng Nghymru

Nodiadau addysgwyr

electoralcommission.org.uk/dysgu

01.
Rhagarweiniad

Erbyn diwedd y prosiect bydd dysgwyr yn deall y canlynol:

- Mae gen i lais ac mae fy mhleidlais yn gwneud i fy llais gael ei glywed
- Mae gen i'r pŵer, drwy fy mhleidlais, i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau

Bydd myfyrwyr yn gallu dangos y ddealltwriaeth hon trwy ymgyrchu a chymryd rhan mewn refferendwm dilys yn yr ysgol.

Fel rhan o'r prosiect hwn, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn gallu cymryd rhan mewn pleidlais ystyrlon a dilys yn eu dosbarth neu grŵp blwyddyn, neu ar draws yr ysgol gyfan.

Gellid cyflwyno'r prosiect hwn mewn un neu nifer o wersi, neu mewn cyfres o wasanaethau. Defnyddiwch y sleidiau PowerPoint cysylltiedig, gan roi'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf pan amlygir hynny.

Mater i'r ysgol yw cytuno beth fydd pwnc neu benderfyniad y refferendwm. Gall hyn fod ar raddfa fach neu fawr, a phenderfyniad yr ysgol yw cylch gwaith y refferendwm.

Gallai opsiynau gynnwys:

- Newid mewn gwisg ysgol, gan gynnwys llacio rheolau gwisg ysgol amser egwyl neu ar ddiwrnodau arbennig o boeth neu oer.
- Diwrnod neu ddigwyddiad elusennol yn yr ysgol i godi arian at elusen
- Ailddrefnu dodrefn yr ystafell ddosbarth
- Ble i ymweld ar daith diwedd blwyddyn
- Opsiynau ar gyfer digwyddiadau mabolgampau
- Dewis o ddrama neu gynhyrchiad ysgol

Pa bynnag fater neu benderfyniad y mae eich ysgol yn ei ddewis, mae'n bwysig bod canlyniad y bleidlais yn cael ei ymrwymo iddo, fel y gall myfyrwyr weld yr effaith y mae eu llais wedi'i chael. Sicrhewch eich bod yn cael y trafodaethau perthnasol yn eich ysgol i allu gwneud yr ymrwymiad hwn.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys canllawiau ar sut i gynnal refferendwm yn eich ysgol.

02.
Cysylltiadau Cwricwlwm i Gymru

Nod y dysgu yw datblygu dinasyddion moesegol a gwybodus; yn benodol:

- ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall a gweithredu eu cyfrifoldebau a hawliau dynol a democrataidd
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol

Bydd y dysgu wedi'i wreiddio'n bennaf yn y Dyniaethau WM5:

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r
- heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau
- ystyrlon ac egwyddorol

Bydd dysgwyr yn gweithio yn unol â Disgrifiadau Dysgu CA3 neu tuag ato:

- Gallaf ddeall bod canlyniadau i'm gweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, a bod y rhain yn effeithio ar fy ardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach.
- Gallaf gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a gallaf rannu fy marn a thystiolaeth gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chynrychiolwyr etholedig yn fy nghymuned.

Dysgu ar sail cysyniad

Mae'r dysgu yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol dysgwyr.

Y cysyniadau allweddol ar gyfer yr uned hon yw:

- Pŵer
- Gwneud penderfyniadau

Gwybodaeth allweddol:

- Dosbarthiad pŵer yn yr ysgol
- Y broses o wneud penderfyniadau yn yr ysgol
- Beth yw refferendwm
- Pwysigrwydd cofrestru i bleidleisio

Datblygu sgiliau allweddol:

- Trafod a dadlau

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

03.
Dilyniant dysgu

Dweud eich dweud – gosod rheolau sylfaenol (sleid 2)

Cyn symud ymlaen i rannu safbwyntiau a barn myfyrwyr, gall fod yn ddefnyddiol cael trafodaeth am sefydlu set o reolau i sicrhau bod cymryd rhan yn ddiogel, yn barchus ac yn drefnus.

Dyma awgrym o bum rheol. Anogwch y myfyrwyr i gytuno ar chweched rheol a defnyddiwch eich rheolau ystafell ddosbarth eich hun os yw'n briodol.

Cofiwch:

- byddwch yn barchus o safbwyntiau eraill
- mae cael trafodaeth rydd yn wych, ac mae'n iawn ceisio perswadio rhywun i'ch ffordd chi o feddwl
- parchwch y person rydych chi'n siarad ag ef, a gwrandewch ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud hefyd
- Mae'n dda teimlo'n angerddol am rywbeth, ond cofiwch drin pobl yn deg
- byddwch yn ddewr - dyma eich cyfle i ddweud eich dweud a chael eich clywed

Gofynnwch i'r myfyrwyr:

- Pam ei bod yn bwysig gallu rhoi eich barn?
- Sut mae'n teimlo pan fo eich barn yn perswadio eraill? Sut mae'n teimlo pan nad yw'n perswadio eraill?

Bwriad y cwestiynau hyn yw ennyn diddordeb myfyrwyr ym mhwysigrwydd a gwerth cael llais. I ddechrau gofynnir i fyfyrwyr ystyried materion y maent yn gyfarwydd â hwy, ond mae hyn yn gosod y sylfaen i gysylltu â gwleidyddiaeth a democratiaeth ehangach.

04.
Pŵer

Gofynnwch i'r myfyrwyr **(sleid 3)**:

Ydych chi'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnoch chi?

Gofynnwch am enghreifftiau o amser pan wnaethant rannu eu barn a'u safbwyntiau a beth ddigwyddodd, neu na ddigwyddodd, oherwydd hyn. Gall enghreifftiau gynnwys yn yr ysgol, gartref, mewn cynghorau ysgol ac ieuenctid, neu mewn grwpiau ieuenctid a chlybiau y tu allan i'r ysgol.

Dangoswch y pedair delwedd ar sleid 4 i'r myfyrwyr.

Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau neu grwpiau bach i drafod y cysylltiad posibl rhwng y pedair delwedd. Dangoswch bob delwedd fesul un ac arhoswch am eiliad rhwng pob delwedd er mwyn i fyfyrwyr allu trafod y cysylltiad posibl a mireinio eu meddyliau. Ar ôl dangos y bedwaredd ddelwedd, gofynnwch i bob grŵp ddal bwrdd gwyn neu ddarn o bapur i fyny gyda'u hateb.

Yr ateb yw pŵer.

Trafodwch sut y gellir diffinio pŵer ar y delweddau hyn. Pa fathau o bŵer a ddangosir yn y lluniau hyn?

Gellir gweld pŵer fel gallu i wneud rhywbeth. Meddyliwch am archarwyr – mae gan bob un ei bŵer ei hun.

Dangoswch y pedair delwedd ar **sleid 5** i'r myfyrwyr.

Trosglwyddwch ddealltwriaeth y dysgwyr o'r cysyniad o bŵer i'r delweddau hyn a thrafodwch pa bŵer sydd i'w weld yma.

Beth sydd gan y bobl, y swyddi neu'r sefydliadau hyn y pŵer i'w wneud?

- Mae gan y fyddin y pŵer i gefnogi ac amddiffyn eu gwlad.
- Mae gan brotestwyr ac ymgyrchwyr y pŵer i dynnu sylw at fater sy'n bwysig iddynt, ac o bosibl, newid meddyliau pobl yn ei gylch.
- Mae gan Brif Weinidog y DU y pŵer i wneud penderfyniadau fel arweinydd y DU.
- Mae gan bleidleiswyr y pŵer i ddewis pwy sy'n eu cynrychioli a gwneud penderfyniadau ar eu rhan yn eu cyngor, y Senedd a Senedd y DU.

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Pŵer

Pwy sydd â phŵer yn eich ysgol? (sleid 6)

Mae pŵer mewn ysgol yn ymddangos mewn gwahanol ffurfiau ac yn cael ei ddal gan wahanol fathau o bobl.

A yw myfyrwyr yn gwybod pwy sydd â gwahanol fathau o bŵer yn eu hysgol? Pwy sy'n gwneud penderfyniadau?

- Pwy sydd â'r pŵer i benderfynu pa staff i'w cyflogi? Ateb: Yn y pen draw, y pennaeth fydd yn penderfynu hyn fel arfer ond bydd staff uwch eraill yn gwneud y penderfyniad hwn hefyd.
- Pwy sydd â'r pŵer i benderfynu diswyddo a chyflogi'r pennaeth? Ateb: Bydd gan y rhan fwyaf o ysgolion fwrdd llywodraethwyr sy'n penodi'r pennaeth.
- Pwy sydd â'r pŵer i benderfynu beth sy'n cael ei ddysgu ym mhob gwers wyddoniaeth? Ateb: Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar y cwricwlwm, ond mae gan bob athro/athrawes y pŵer i benderfynu sut olwg sydd ar bob gwers.
- Pwy sydd â'r pŵer i benderfynu a yw'r ysgol yn agor mewn tywydd eithafol? Ateb: bydd y pennaeth fel arfer yn gwneud y penderfyniad hwn, yn seiliedig ar gyngor gan y cyngor lleol.
- Pwy sydd â'r pŵer i benderfynu a yw'r myfyrwyr yn gweithio'n galed ac yn llwyddo? Ateb: Mae gan fyfyrwyr y pŵer hwn.

06.
Beth sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau?

(sleid 7)

Mae pawb yn gwneud penderfyniadau bob dydd. P'un a yw'r rhain yn benderfyniadau mawr neu fach, mae yna lawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau.

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am y canlynol:

- Beth sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud bob dydd?
- Beth sy'n dylanwadu ar yr hyn rydych chi'n ei wylio ar y teledu neu'n ei wneud ar y penwythnos?

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddychmygu bod ganddynt benderfyniad i'w wneud am eu dyfodol. Gallai awgrymiadau gynnwys beth i'w wneud ar ôl iddynt orffen yn yr ysgol, ble i fynd i brifysgol neu goleg, neu ble i fynd ar wyliau.

Gofynnwch: beth fyddai'n bwysig i chi wrth wneud y penderfyniad hwn?

Rhannwch yr enghreifftiau ar **sleid 8.** Trafodwch a phenderfynwch beth yw'r rhai pwysicaf ym marn y myfyriwr.

- Barn fy ffrindiau
- Yr hyn yr wyf wedi ei weld ar y teledu
- Fy mhrofiad personol
- Yr hyn yr wyf wedi ei weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- Yr hyn yr wyf wedi ei ddarllen ar wefannau newyddion ar-lein
- Yr hyn yr wyf wedi ei ddarllen yn y papurau newydd
- Barn ffigurau gwleidyddol
- Arian a chyllid
- Ble es i i'r ysgol
- Fy rhyw
- Enwogion neu ddylanwadwyr
- Lle cefais fy magu
- Lle dwi'n byw nawr
- Fy swydd
- Barn arbenigwr
- Fy oed
- Barn oedolion yn y cartref
- Beth arall?

07.
Gwneud penderfyniadau

Sut i ddweud eich dweud (sleid 9)

Gofynnwch i fyfyrwyr pam eu bod yn meddwl ei bod yn bwysig gallu rhoi eu barn wrth wneud penderfyniadau. Dechreuwch eu hymgysylltu â phwysigrwydd a gwerth cael llais.

I ddechrau gofynnir i fyfyrwyr ystyried materion y maent yn gyfarwydd â hwy, ond mae hyn yn gosod y sylfaen i gysylltu â gwleidyddiaeth a democratiaeth ehangach.

Dechreuwch gyflwyno enghreifftiau o sut y gall pobl ifanc ddweud eu dweud.

- **Siaradwch â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau** – rhannwch eich barn gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau (fel eich pennaeth)
- **Dechreuwch ddeiseb** – os oes newid yr hoffech ei wneud, gallwch hel cefnogaeth trwy lofnodion a rhannu hyn gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- **Pleidleisiwch** – pan fyddwch chi'n 16 oed gallwch chi bleidleisio mewn rhai etholiadau yng Nghymru

Gwneud penderfyniadau (sleid 10)

Dechreuwch gyflwyno'r syniad y byddwch yn cynnal gweithgaredd i wneud penderfyniad am y mater o'ch dewis ar gyfer eich ysgol.

Eglurwch fod gan yr ysgol ddiddordeb ym marn y myfyrwyr a'i bod am iddynt gael y pŵer i wneud penderfyniad am y mater o'ch dewis. Pwysleisiwch y bydd y penderfyniad a wnânt yn cael ei ddilyn.

Mae angen i fyfyrwyr gael mater sy'n ddilys ac yn ystyrlon i wneud penderfyniad yn ei gylch.

Mae angen cefnogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn proses o wneud penderfyniadau sy'n deg ac sy'n caniatáu i bawb gymryd rhan os dymunant.

Mae'n debygol y bydd myfyrwyr yn awgrymu pleidlais. Yn y cyd-destun hwn, gelwir y math hwn o bleidlais yn refferendwm.

Refferendwm
Pleidlais sy'n gwneud penderfyniad ar un mater.

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

08. Refferendwm

Rhannwch amserlen gyda'r myfyrwyr ar gyfer y camau nesaf **(sleid 11).**

Y camau nesaf yw:

- Cytuno ar gwestiwn (dewisol)
- Ymgyrchu
- Dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio
- Cynnal y refferendwm

Cytuno ar gwestiwn (sleid 12 - dewisol)

Penderfynu ar eich cwestiwn refferendwm fel grŵp. Fel arall, efallai yr hoffech wneud y penderfyniad hwn cyn ei gynnal.

Rhaid i'r cwestiwn fodloni'r canlynol:

- Teg – ni ddylai'r cwestiwn arwain pleidleisiwr i wneud penderfyniad un ffordd neu'r llall
- Hawdd i'w ddeall – dylai'r iaith fod yn glir
- Cynnwys dau ddewis neu fwy – dylai pleidleiswyr farcio 'X' wrth ymyl eu dewis, yn hytrach nag ysgrifennu eu penderfyniad

Ymgyrchu (sleid 13)

Efallai y byddwch am drefnu amser lle gall myfyrwyr wneud cyflwyniadau, dylunio posteri, neu greu adnoddau ymgyrchu eraill, i gefnogi'r gwahanol ddadleuon dros eich mater.

Gweler 'cynllun gwers 5' yn ein cynllun gwaith chwe wythnos.

Cofrestru i bleidleisio (sleid 14)

Cyn pleidleisio yn etholiadau'r DU, mae'n rhaid i chi gofrestru i bleidleisio.

Trefnwch broses i fyfyrwyr gofrestru i bleidleisio cyn eich refferendwm. Nodwch ddyddiad cau ar gyfer cofrestru er mwyn ychwanegu elfen o gyfrifoldeb. Gallai'r broses fod yn:

- cofrestr mewn ystafell ddosbarth neu le a rennir
- gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu eu henw ar ddarn o bapur a'i roi mewn bocs yn y dosbarth

Trafodwch pwy ddylai gael yr hawl i bleidleisio yn eich refferendwm. Er enghraifft, os yw eich penderfyniad yn effeithio ar un grŵp blwyddyn yn unig, efallai na fyddwch am i grwpiau blwyddyn eraill allu pleidleisio. Trafodwch y rhesymau dros y penderfyniad ynghylch pwy sy'n gymwys.

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

09.
Cynnal y refferendwm

(sleid 16)

Penderfynwch ar ddyddiad a lleoliad i gynnal eich refferendwm. Gallwch ddewis ei gynnal yn ystod gwers arferol, mewn gwasanaeth, amser egwyl, neu drwy gydol diwrnod ysgol cyfan.

Gallai'r opsiynau ar gyfer eich gorsaf bleidleisio fod yn ystafell ddosbarth, neuadd yr ysgol, neu fan arall a rennir.

Creu'r orsaf bleidleisio

Mae'n bosibl y gallwch fenthyg offer etholiad go iawn, gan gynnwys bythau pleidleisio a blychau pleidleisio, gan eich tîm etholiadau lleol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt drwy roi cod post eich ysgol ar ein gwefan.

Os nad yw hyn yn bosibl, crëwch flwch pleidleisio diogel o offer ystafell ddosbarth a sicrhewch fod myfyrwyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol trwy gael man rhwng y mannau pleidleisio.

Sefydlwch ddesg â chofrestr lle mae pleidleiswyr yn cael eu papurau pleidleisio. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond pleidleiswyr cofrestredig fydd yn gallu pleidleisio.

Isod mae enghraifft o bapur pleidleisio. Gwnewch yn siŵr eich bod yn argraffu o leiaf un fesul pleidleisiwr, gydag ychydig o ddarnau sbâr rhag ofn y bydd camgymeriadau.

Unwaith y bydd y bleidlais wedi cau, chi sydd i gyfrif y pleidleisiau a phenderfynu sut y bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi.

[Papur pleidleisio enghreifftiol]

A ddylai myfyrwyr yn Ysgol y Stryd Fawr wisgo blaser ar ddydd Gwener?

Marciwch 'X' wrth ymyl eich ateb.

Dylai ☐ **Na ddylai** ☐

Dylai pleidleiswyr farcio eu pleidlais ag 'X', plygu eu papur, a'i roi yn y blwch pleidleisio.